YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 38. RHIF 11 EBRILL 2017 50c

# Gŵyl Ddewi Cofiadwy yn Lerpwl

*ar y cyd rhwng Cymdeithas Lenyddol Bethel, Lerpwl â Chymdeithas Cymry Lerpwl ar Nos Sadwrn, 25 Chwefror 2017 yng Nghlwb Golff, Woolton*




*Dr. Pat Williams, Ted Clement Evans, Devida Broadbent a Ben Hughes*



*Nia Ceris (Bangor) yn adrodd ei stori mor gelfydd, hyfryd oedd cael ei chwmni a'i neges a'i theyrngedau i alltudion gweithgar y canrifoedd*



*Idris Roberts a Mike Farnworth*



*Roderick Owen, Llywydd Cymdeithas Cymry Lerpwl, yn diolch yn ddeheuig am y wledd*



*Yr ystafell yn llawn o Gymry brwd*

***Lluniau o gamera Cadeirydd yr Angor: Dr. John G. Williams***

## YN Y RHIFYN HWN:

**Noson Gwylwyr S4C yn Lerpwl. Newyddion Seion, Penbedw; Bethania, Bethel, Cymry Lerpwl, Cymru Manceinion; Cronfa Arbennig; Adolygiad Cyfrol Werthfawr; Cystadleuaeth**

Golygyddol

# *Cyfrifoldeb am Adael Ewrop*

## *gan D. Ben Rees*

Cofiaf yn dda y dydd cyntaf o Ionawr 1973 pan benderfynodd Prydain ddod yn rhan o Gymuned Economaidd Ewrop ac am y Refferendwm a gymerodd le dwy flynedd yn ddiweddarach i weld a oeddem am aros o fewn y Clwb. Pleidlais yn erbyn ond dros y blynyddoedd newidiodd y sefyllfa yn ddirfawr a daeth bendithion lawer o Brwsel a Strasburg.

Aeth E.E.C. yn Undeb Ewropeaidd gan wylltio llawer o Aelodau Seneddol Toriaidd, a daeth UKIP i fodolaeth, fel plaid i adael Ewrop oherwydd yn eu tŷb hwy yr oeddem yn colli ein hunaniaeth ac yn gorfod caniatau pobl o'r 27 o wledydd a ddymunai gartrefu yn y Deyrnas Unedig gael gwneud hynny. Erbyn 2016 yr oedd gennym Refferendwm arall, y tro hwn Aros neu Adael yr Undeb Ewropeaidd. Ar 23 Mehefin 2016 fel y cofiwn pleidleisiodd 52% o'r rhai a aeth i bleidleisio i ddod allan a 48% i aros i fewn. Yr oedd y mwyafrif yn ddigonol ond nid yn sylweddol. Aeth y Llywodraeth Dorïaidd i siarad dros y 52% ac anwybyddu y 48% (a'r tro hwn yr oeddwn ni yn ei plith!) Canlyniad y bleidlais honno yw y sgwrs bellach ac y mae gofid mawr am y dyfodol. Gofid am dri pheth.

Yn gyntaf ein bod ar fin dinistrio y Deyrnas Unedig. Mor sicr ac y mae yfory yn dilyn heddiw fe welwn yr Alban yn gadael ac yn croesawu annibyniaeth. Yr oedd *Question Tim*e o Glasgow ar 16 Chwefror yn adlewyrchu hynny. Y mae colli yr Alban o'r bartneriaeth yn bris uchel i dalu i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Yn ail safon byw yn disgyn i bob un ohonom. Dylai ffermwyr Cymru ofni yr enbydrwydd a ddaw i'w hanes, ac y mae hyn yn wir am ardaloedd difreintiedig fel cymoedd De Cymru ac ardaloedd chwareli Gogledd Cymru. Cafodd y rhain help llaw. Ond cicio yn erbyn y tresi oedd y diolch a dewis ffordd a allai arwain i enbydrwydd.

Yn drydydd dyfodol yr ifanc sydd yn gwestiwn hynod o berthnasol.

Y gwir ydyw cawsom ein camarwain gan wleidyddion clyfar a lwyddodd i droi popeth o'u plaid yn y Refferendwm. Diffiniodd Clement Attlee y ddyfais honno fel *'a device of dictators'!* Siaradodd Tony Blair ar 20 Chwefror yn Swyddfa Bloomberg, ond cyn i'w eiriau oeri yr oedd Boris Johnson am i ni droi y teledu i ffwrdd yn hytrach na chlywed ei ddadl dros gael refferendwm arall ar ôl y trafodaethau. Ond ble mae rhyddid barn a rhyddid i'w fynegi? Onid oes gan bob copa gwalltog ohonom hawl ddynol i anghytuno neu i gytuno neu i eistedd ar y ffens. Rhyfedd gweld y Blaid Lafur yn ceisio gorfodi yr aelodau Seneddol i ddilyn llywodraeth Brexit. Derbyniaf y canlyniad ar 23 Mehefin fel ffaith ond nid fel deddf y mae'n rhaid plygu iddo. Y Brexit sydd ei angen fel y dadleua Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, yw un a sylfaenwyd ar y farchnad sengl a'r bartneriaeth boliticaidd. Ond ym mis Ionawr yn Lancaster House clywsom ein Prif Weinidog yn rhoddi sofraniaeth senedd a hawl i ddelio gyda mewnfudwyr yn uwch na diogelu swyddi, cwmniau, gwaith a safon byw. Mae ein safon byw yn well nag yr oedd ef yn fy mhlentyndod ac y mae hynny wedi deillio o sefydlu y Wladwriaeth Les a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Nid yw canlyniad y refferendwm yn golygu y gall y Llywodraeth gario ymlaen heb lyfethair gan fod y gwleidyddion yn yr Undeb Ewropeaidd yn swnio yn bobl bengaled sydd eisioes yn gofyn am 60 biliwn o bunnau oddi wrthym wrth adael!

Yn wir mae Mrs May mor trwmpaidd â dweud ei bod hi mor barod i adael heb ddim cytundeb a ninnau yn allforio rhan helaethaf o'n nwyddau i wledydd fel yr Almaen. Os fydd y telerau a geir ar ddiwedd y dydd yn darostwng ein safon byw, yna mae'n rhaid cael yr hawl ddemocrataidd i geisio dadwneud Brexit. 'Brexit means Brexit' yw'r slogan slic, ond yn sicr gall drigolion y Deyrnas Anunedig ddweud Na i hynny. Ond yn hynod o drist, nid yw'r Wrthblaid (ar wahan i SNP a Plaid Cymru) yn dangos llawer o asgwrn cefn i frwydro yn erbyn. Anodd dirnad meddwl Jeremy Corbyn, y rebel pennaf a welodd Senedd Prydain Fawr oddi ar 1974, yn gorfodi ei gyd-aelodau Llafur i ddilyn yn slafaidd gerddediad Mrs May a'r Mri Johnson - Fox - a David Davis. Cofier fod y mwyafrif o gefnogwyr Llafur wedi pleidleisio i aros, 57% ohonom. Lle mae lleisiau a chynrychiolwyr y rhain? Ac am y mewnfudo breuddwyd di-sail sydd y tu ôl i'r bwriad y gallwn reoli y mewnfudo. Sut y gallwn a ninnau ag angen y bobl hyn i gyflawni gwaith na allwn ei wneud ein hunain (meddygon, nyrsus ac ati) neu nad ydym yn dymuno ei gyflawni fel casglu ffrwythau'r tir, fel mefus, letusen, tatws i'r sguboriau. Swyddi caled, di-ddiolch, a bach y tâl. Mae angen pobl arnom i adeiladu miliwn o dai newydd a fflatiau erbyn y flwyddyn 2020. Mae'n amlwg i mi mae'r bobl a fydd ar eu colled o adael y farchnad gyffredin fel y gelwid hi fydd teuluoedd y tai cownsel a'r tai teras sydd yn gweithio ar gyflogau isel ac yn gorfod dibynnu ar gardod y Llywodraeth neu y *food banks* i gael dau ben llinyn ynghyd, llawer ohonynt yn gefnogwyr UKIP yng Ngogledd Lloegr a Blaenau Gwent ym Mynwy.

Beth fyddai cewri gwleidyddion ein gorffennol yn ei dweud tybed?

Gŵr fel David Lloyd George a heuodd yn ddyfal ar gyfer dyfodiad bywyd gwell, pensiwn a buddsoddiad i'r di-waith, a'i gyfoeswr Keir Hardie, a adawodd ysgol yn wyth oed i weithio, ond a ymgyrchodd am well byd, am bleidlais i'r ferch ac am annibyniaeth i'r India. Cofiwn am y rhai a wrthwynebodd Natsiaeth a ffasgaeth fel Eleanor Rathbone a Jim Griffiths ac Ernest Bevan. Beth fu canlyniad Brexit hyd yn hyn? Creu annifyrwch ac atgasedd tuag at yr Iddewon a'r bobl ddwad. Daeth gwrthsemitiaeth i'n bro yn Allerton. Llosgwyd car rabbi y synagog yn yr un faesdref â chapel annwyl Bethel. Beth fyddai Cledwyn Hughes yn ei ddweud, gŵr a aberthodd ei yrfa er mwyn arwain pobl i ymfalchïo ei bod hwy yn Ewropeaid ac nid yn Gymry na Phrydeinwyr yn unig. Y mae gennym ddewis. Naill ai derbyn y cyfan felŵyn ar y ffordd i'r lladdfa, y Brexit caled, neu dadlau, gohebu, protestio, codi llais er mwyn cael cyfiawnder ac amodau teg. 'Mi wn lle y safaf' i aralleirio Martin Luther yn 1517, ond yn 2017 a ydach chi, ddarllenwyr *Yr Angor,* yn gwybod lle ydach chi yn sefyll? Rhoddwch wybod i'ch papur bro.

## CYSTADLEUAETH SCRABL

(Gweler *Angor* Mawrth 2017, t. 11).

Dyddiau cau: Nos Lun, Mawrth 27 - (estynwyd y dyddiad cau gan na chafwyd ateb hyd yn hyn).

**GWOBR: UGAIN PUNT (£20)**

# Cangen Alumni Lerpwl o Brifysgol Lerpwl – Cyfarfod Cyntaf 2017

Cawn o leiaf ddwy i dair darlith y flwyddyn yn Saesneg o dan nawdd y Gangen, ac ar Nos Lun, 27 Chwefror 2017 traddodwyd darlith gan Ysgrifennydd y Gangen, Parchedig Athro D. Ben Rees, y tro hwn ar *William Williams (1717-1791) the Sweet Singer of Wales*. Dyma'r trydydd tro i ni gael y cyfle i ddathlu tri chanmlwyddiant genedigaeth yr emynydd a hynny gan un sydd yn wybodus iawn yn ei hanes.

Cafwyd cefnogaeth dda a'r tro hwn llywyddwyd gan y Parchg. Tom Meadows, Americanwr sydd yn Weinidog Eglwys Unedig Ddiwygiedig Allerton. Fel y cyfaddefodd awdur 'Guide me O Thou Great Redeemer' ydoedd tan y noson y cyflwynwyd portread o gefndir, cyfraniad a gwaddol Pantycelyn. Gosododd Dr. John Williams ar gais y darlithydd yr holl emynau Saesneg y bu yn delio â hwy ar y sgrîn a chanwyd un ohonynt gydag arddeliad mawr.

Braf oedd cael cwestiynau ac atebion ac ar ôl awr a hanner aeth pawb adref yn rhyfeddu at ddoniau anhygoel y Pêrganiedydd. Rhaid rhannu ein hanes gydag eraill a dyma enghraifft o hynny.



*Parchedig Tim Meadows yn diolch yn ddidwyll am y ddarlith i'r darlithydd*

# CORNEL Y TRYSORYDD



**Ebrill 2017**

| | |
|---|---|
| Mrs Undeg Cole, West Cross | £11.00 |
| Mr Gareth Lewis Jones, Graigfechan | £20.00 |
| Mr a Mrs Dewi Evans, Y Bala | £20.00 |
| Mr Keneth Williams, Gateacre | £50.00 |
| Mr a Mrs Meirion Evans, Allerton | £20.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Lerpwl | £25.00 |
| Mr Simon Chandler, Prestwich | £11.00 |
| Mrs Mair C Williams, Nefyn | £20.00 |
| Mrs Menai Roberts, Newcastle | £25.00 |
| Miss Mairwen Roberts, Llangefni | £25.00 |
| Er Cof am Miss Margaret Grace Roberts (Maxi) | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£252.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

**YR ANGOR**
**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**
*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

**SWYDDOGION AC AELODAU O BWYLLGOR GWAITH YR ANGOR AM 2017**

***Cadeirydd a Ffotograffydd:***
Dr. John G. Williams, Allerton.
***Trysorydd a'r Dosbarthwr ar y Glannau:***
Mr. Roderick Owen, Springwood.
***Ysgrifennydd a Dosbarthwr trwy'r post:***
Mr. Ben Hughes, Childwall.
***Golygydd a Threfnydd Hysbysebion:***
Parchedig Athro D. Ben Rees, Allerton.
***Bwrdd Golygyddol a Chefnogi'r Angor:***
Mr. Ken Williams, Gateacre;
Mrs Mair Jones, Childwall; Mrs Mair Rees Jones, Penbedw; Mrs Olwen Jones, Irby;
Elwyn a Eflyn Evans, Parchg. Eleri Edwards, Mrs Anne Hunt
*(y pedwar o Manceinion a'r cyffiniau).*

---

**Cyfarfod nesaf:**
**Pnawn Llun, 17 Gorffennaf 2017 am 2 o'r gloch**




*Annwyl gyfaill,*

Daeth yn gyfnod ymgyrch aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma ysgrifennu at ddarllenwyr yr *Angor* i ofyn i chi ymaelodi â'r Gymdeithas, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu dal ati i wneud ein gwaith a sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Mae llawer o newid wedi bod yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, er gwell ac er gwaeth. Un peth cyson ydy'r ffaith bod Cymdeithas yr Iaith wedi bod yna bob cam o'r ffordd, yn brwydro i sicrhau hawliau i bobl Cymru, a dyfodol i'r iaith.

Mae llawer wedi'i ennill, ond mae ffordd bell i fynd eto cyn cyrraedd y nod. Mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith er mwyn dal ati efo'r gwaith. Allwch chi gefnogi? Mi fyddai'n braf iawn gweld rhagor o bobl Glannau Mersi a Manceinion yn ymaelodi eleni.

Mi allwch chi ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan *www.cymdeithas.cymru/ymaelodi* gan dalu efo'ch cerdyn banc, neu drwy anfon siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ffonio'r swyddfa ar 01970 624501 i gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn. Cofiwch sôn eich bod yn ymaelodi ar ôl gweld y llythyr yn yr *Angor*!

Mae angen eich cefnogaeth yn fwy nag erioed, felly ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na newch chi, pwy neith?

Gyda diolch,
Osian Rhys
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Mrs Eunice Powell yn ei phrofedigaeth o golli ei chefnder, Mr Clifford Evans, Bury, blaenor da ei air yn Noddfa, Manceinion. Mae Mrs Morfydd Williams, Moreton adref o'r ysbyty ac yn teimlo yn well. Ni fu Mrs Dilys Askew yn mwynhau iechyd da yn ddiweddar ac wedi methu dod i'r gwasanaethau. Brysiwch fendio. Mae Miss Megan Roberts wedi ymgartefu yn Charlotte House, Bebington. Ein cofion cynhesaf ati. Rydym yn colli ei phresenoldeb yn yr oedfa ar y Sul. Roedd mor ffyddlon.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Braf oedd cael gweinidogaeth ein Gweinidog ar Suliau 8 o Ionawr, 12 a 26 o Chwefror a daw eto ar Sul 12 Mawrth i weinyddu'r Cymun. Croesawyd Norma a Roderick Owen i'n hoedfa ar 12 Chwefror a hefyd Susan Lyons (Bedford) a hynny yn chwyddo ein cynulleidfa sydd mor ffyddlon. Derbyniwyd trwy ewyllys Miss Glenys Jones, Old Swan y swm o £1,000 a £300 ychwanegol gan ei chwaer-yng-nghyfraith Mrs Lona Jones, Llandudno. Mae y rhoddion hyn yn gryn help i'n cynnal. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Capel ar fore Sul, 26 Mawrth pryd y ceir cyfle i dderbyn yr adroddiadau. Daeth yr Adroddiad Blynyddol allan o dan olygyddiaeth John P. Lyons a diolchir iddo ef am ei arweiniad mewn dyddiau anodd a'i briod Marian ag angen gofal. Daw pan y gall i'n plith ac yn esiampl godidog o ffyddlondeb, graslonrwydd a lledneisrwydd ysbryd. Y mae'r adroddiad yn werth i'w astudio a theimlwn fesur mawr o hyfrydwch wrth fodio ei dudalennau a gweld gofal ein Trysorydd, Mrs Elin Boyd a'n Ysgrifennydd Ariannol, Mrs Menna Caton a'n Hysgrifennydd, Mr. John P. Lyons, Y mae Mr. Jim Boyd yn cyflawni gofal am yr adeiladau bob tro y byddwn yn cyfarfod ac yn angenrhaid yn ein plith fel cymuned Gristnogol Gymraeg Gogledd Lerpwl.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Cafwyd cynulleidfa dda ar y nos Fawrth olaf ym mis Ionawr a oedd yn noson oer a gwlyb i wrando ar Meinir Pierce Jones yn olrhain hanes ail sefydlu Amgueddfa Forwrol Llŷn yn Nefyn. Meinir yw



***Meinir Pierce Jones***

Curadur yr Amgueddfa. Sefydlwyd yr Amgueddfa i ddechrau ym 1997 gan griw o wirfoddolwyr lleol ond caeodd yn y flwyddyn 2000. Daeth criw o'r gymuned leol at ei gilydd i drafod ail-ddatblygu ac ail agor yr Amgueddfa yn 2007. Casglwyd miliwn o bunnau o wahanol ffynonellau. Roedd angen llawer o waith atgyweirio i'r adeilad sef Eglwys Santes Fair yn Nefyn a'r peth cyntaf a wnaed oedd rhoi tô newydd ac adeiladu ramp i'r anabl. Tra roedd y gweithwyr yn cloddio o dan waliau yr Eglwys er mwyn eu cryfhau darganfuwyd bedd cist o'r Canol Oesoedd – efallai o gyfnod Llewelyn. Roedd sgerbwd merch yn y gist. Ail agorwyd yr amgueddfa yn 2014. Lluniwyd logo i'r Amgueddfa a oedd yn seiliedeg ar benwaig Nefyn ac mae'r logo yn lâs a gwyrdd er mwyn cynrychioli y tir a'r môr. Yn yr amgueddfa ceir amrywiaeth o weithgareddau, un arddangosfa barhaol ac eraill sydd yn newid, a rhaglen o weithgareddau i blant a phobl ifanc. Mae gan yr Amgueddfa gyfeillion sydd yn gweithio er budd y lle a llawer o wirfoddolwyr hefyd. Mae'n le diddorol ac yn werth ymweliad. Gwelir y wefan am fwy o fanylion sef www.llyn-maritime-museum.co.uk

Ar y nos Fawrth ddilynol sef y nos Fawrth cyntaf yn Chwefror cawsom gwmni Cledwyn Thomas, Bebington ar daith 'Igam-Ogam' drwy Lerpwl. Cychwynodd y daith wrth ymyl ceg twnel Penbedw a chrwydro o amgylch canol y ddinas heibio y Llyfrgell Ganolog a Neuadd Sant Siôr i Monument Place lle mae cofgolofn i Frenin Siôr y Trydydd. Dyna'r gofgolofn gyntaf drwy'r wlad i gael dyn ar gefn ceffyl arni. Wedyn i fyny Brownlow Hill a heibio Adeilad Fictoria sydd nawr yn perthyn i'r Brifysgol. Adeiladwyd yr adeilad yma gan William Pickles Hartley a ddaeth yn enwog am wneud jam. Ymlaen i Gadeirlan y Pabyddion a synnu clywed mai Wyrcws fwyaf Lerpwl oedd gynt ar safle y Gadeirlan. Dechreuwyd adeiladu y Gadeirlan bresennol yn 1962 a gorffennwyd yn 1967. Roedd Cadeirlan gyntaf y Pabyddion yn Ffordd St. Domingo, Everton ond fe dynnwyd yr adeilad i lawr yn 1980. Wedyn ar hyd Hope Street a gafodd ei henwi ar ôl John Hope, dyn busnes llwyddiannus a oedd yn byw yn lle mae Tafarn y Philharmonic yn awr! Aethom heibio Theatr yr Everyman a oedd a'r un adeg yn dŷ tafarn 'The Old Bowling Green'. Yma y ganwyd William Roscoe. Gwelsom y cofgolofnau i David



***Brian gyda Cledwyn Thomas***

Shepherd a Derek Worlock. Ymlaen i Sgwar Abercromby lle mae cerflun i Noel Godfrey Chavasse a anrhydeddwyd am ei ddwerder yn y Rhyfel Byd Cyntaf pan gafodd un Military Cross a dwy Victoria Cross. Aethom wedyn i erddi St James o dan y Gadeirlan. Chwarel oedd yna hyd



*Cofeb Noel Chavasse*

1825 wedyn daeth y lle yn fynwent ac yna y claddwyd llawer iawn o enwogion Lerpwl, e.e. Kitty Wilkinson a William Huskisson. Clywsom sôn am y Gadeirlan Anglicanaidd a gynlluniwyd gan Giles Gilbert Scott. Troi yn ôl wedyn ar hyd stryd Catharine lle mae cerflun o'r Swper Olaf uwchben drws Eglwys St Phillip




*Cofeb Florence Nightingale*



*Cefyn Burgess a Norma gyda'r cwilt*

Neri a hefyd gofeb i Florence Nightingale a oedd yn ffrind i'r teulu Rathbone. Fe ddaeth Florence Nightingale i Lerpwl i wella safon gwaith gweinyddesau. Sefydlodd gyfundrefn o weinyddesau a oedd yn barod i fynd i dai bobl (district nurses). Cawsom noson ddiddorol iawn ac nid yw hwn ond braslun o ble buom yn crwydro. Dangoswyd i ni gymaint o hanes sydd yma yn Lerpwl, llawer ohono nad ydym wedi sylwi arno nac yn gwybod dim amdano.

Fe fu y Gymdeithas ar ymweliad a Chadeirlan Anglicanaidd Lerpwl ym mis Tachwedd y llynedd. Un o uchafbwyntiau yr ymweliad oedd gweld campwaith y cynllunydd tecstiliau Cefyn Burgess a dyma oedd thema ei sgwrs i ni yn y cyfarfod olaf o'r Gymdeithas cyn wythnos hanner tymor. Brodor o Fethesda yw Cefyn a chafodd radd mewn tecstiliau o Brifysgol Manceinion a Choleg Brenhinol y Celfyddydau, Llundain. Tua 2007 cafodd ei gomisynu gan y Gadeirlan i gynllunio lliain allor, clustogau penlinio a chlustogau cadeiriau yn yr adeilad. Defnyddiodd lun y pomegranad yn ei waith am fod y ffrwyth yn sumbol pwysig mewn lluniau ac adeiladau i wneud a chrefydd. Amlinellodd y broses o ddewis a datblygu y patrwm gorau ac wedyn mynd ati gyda'i gyfeillion yng Huddersfield i gynhyrchu y defnydd gyda'r patrwm dewisedig. Gobeithio y bydd pawb yn mynd i'r gadeirlan i weld y gwaith arbennig yma.

Cynhaliwyd ein swper Gŵyl Ddewi ar y cyd â Chymdeithas Lenyddol Bethel yng nghlwb golf Woolton ar y nos Sadwrn olaf ym mis Chwefror. Roedd y bwyd yn ardderchog a braf oedd cael cymdeithasu gyda'n gilydd. Y wraig wadd oedd Nia Cerys sydd yn awr yn byw ym Mangor ond yn enedigiol o Landegfan, Môn. Cawsom anerchiad diddorol iawn am Gymry alltud y gorffennol a'r presennol a rhai yr oedd hi wedi eu cyfarfod yng ngwahanol rannau o'r byd. Llongyfarchodd ein Gweinidog am ei waith dros y diwylliant Cymraeg ers iddo dod i'r ddinas ac anogodd ni i ddilyn ei esiampl a chenadwri Dewi Sant i "wneud y pethau bychain".

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu etholiad ar 5 Chwefror am aelodau newydd i Gyngor yr Eglwys o dan arweiniad ein gweinidog Dr. D. Ben Rees, Dr. John G. Willams a W. Meirion Evans. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn. Llawenhawn a diolchwn am hyn a maent eisioes wedi ymuno â ni yn y pwyllgor cyntaf, sef Beryl Williams, Wena Evans, Rhiannon Liddell, Carys Jones ag Eryl Wyn Jones ynghyd â Ben Hughes oedd ar y pwyllgor gwreididol.

Mrs Lilian Coulthard, Aigburth oedd y wraig wadd yn y Gymdeithas Lenyddol nos Lun, 6 Chwefror, a'r holwr oedd Dr. D. Ben Rees. Tanygrisiau oedd cychwyn y daith iddi, a chyflwynodd i ni ddarlun amgen na glaw di-ben draw Stiniog! Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr economi leol oedd amaethyddiaeth, sef ffermydd bychain yn magu defaid a gwartheg.

Daeth tro ar fyd a thyfiant pan ddaeth Stanley Mullholland o'r Iwerddon a sefydlu cwmni *Liverpool Slate Workings*. Agorwyd llawer o chwareli fel yr Oakley, Llechwedd, Diffwys, Cwm Orthin ac eraill. Arian o Loegr oedd tu ôl i'r fenter, daeth galw mawr am lechi yma ac ar y cyfandir. Bu rhaid cyflogi gweithwyr oddi



*Lilian Coulthard a'r Cadeirydd*

allan yn 1840 a daeth Blaenau Ffestiniog a'r cyffiniau y dref fwyaf yn y Sir. Rhaid oedd adeiladu tai ar gyfer y gweithwyr a barics i'r gweithwyr o'r tu allan i fyw o fore Llun hyd pnawn Gwener.

Agorwyd ysbyty i roi gwasanaeth meddygol i'r gweithwyr a'u teuluoedd a ffurfiwyd Undeb i'r chwarelwyr. Sefydlwyd ysgol gan i'r boblogaeth gynyddu erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif i ddeuddeg mil.

Pan anwyd Lilian yn y tridegau roedd yna dipyn o galedi a galwad am lechi wedi prinhau. Y capel oedd canolfan ei bywyd fel y mwyafrif o'r trigolion. Roedd naw o gapel gyda pedwar o weinidogion ac un rheithor. Yr un a ddylanwadodd fwyaf arni oedd y diweddar Parchedig R. Maurice Williams a ddaeth i Waterloo o 1952 hyd 1979. Cafodd ei haddysg yn yr ysgol elfennol a'r Cownti School, yna i Goleg Normal i'w hyfforddi yn athrawes a dod yma i Lerpwl – mantais fawr i blant Lerpwl a phinacl ei gyrfa oedd ei phenodi yn brifathrwes.

Daeth hi'n dro ar fryd eto yn hanes Tanygrisiau, sef un siop, un capel a dim un gweinidog, y ffatri wlân wedi cau ond yr ysgol yn dal yn llawn o blant. Erbyn hyn, mae'r chwareli yn denu ymwelwyr, y *zip-wire*, tripiau i grombil y ddaear a lawer o rialtwch a phartïon.

Lilian oedd yr ieuengaf o ddeg o blant a'r unig bellach ar ôl. Mae ei gwreiddiau gwerinol yn agos iawn at ei chalon ac mae hi a'r teulu ar hyd y blynyddoedd yn dal i dreulio gwyliau ym mro ei mebyd. Mae ganddi lu o ddiddordebau, ac mewn cysylltiad agos â ffrindiau bore oes, yn hoff iawn o ddarllen yn fwy felly na gwylio'r teledu. Diolch am noson mor hwyliog, llawn hiwmor, am straeon diddorol ac am gymeriadau'r cyfnod a'n synnu fwy fwy am y newidiadau a gymerodd le yn ein hoes ni.

Roedd hi'n noson arbennig ar nos Lun, 20 Chwefror i lansio ymdrech Cymorth Cristnogol y Cyfundeb pryd y disgwylir i ni gasglu £1,500 tuag at anghenion trigolion y Phillipines o dan y thema *'Corwynt Cariad'*.

Beryl Williams gyflwynodd i ni gefndir a daearyddiaeth yr ynysoedd a Dr. John yn ychwanegu drwy ddangos darluniau o'r wlad ar y sgrin. Mae y Phillipines yn ynysoedd lliwgar iawn gydag un tymor yn sych a phoeth a'r llall yn llaith a gwlyb. Mae'r economi yn dibynnu ar amaethyddiaeth, ac mae peth o'r cynnyrch yn ei allforio fel olew cnau cocoa.

Mae llawer o'r dynion yn ynysoedd y Phillipines wedi symud i'r trefi a'r dinasoedd i chwilio am waith gan adael y merched i gynnal eu teuluoedd yn y wlad. Mae safle y ferch yn y gymdeithas yn is-raddol. Does dim gwasanaeth sylfaenol fel dŵr a charthffosiaeth i'w gael yno a reis sydd i bob pryd bwyd gydag ychydig o gig neu bysgod. Mae effaith newid hinsawdd, gwyntoedd cryfion a daeargrynfeydd wedi amharu ar eu hamodau byw. Galw am help yw'r apêl i wella eu sefyllfa bob dydd.

Cafwyd tradodaeth fywiog uwchben paned o de gyda'r gweinidog yn ein harwain i wyntyllu syniadau i godi arian er lles i rai llai ffodus na ni.

Dyma ein her a'n braint yn 2017. Ein swyddog cyswllt gyda'r Henaduriaeth yw Carys Jones, Wavertree a hi fydd yn arwain yr apêl hon a ddaw atom bob pum mlynedd. Diolch i Beryl, Dr. John, Carys a Dr. D. Ben Rees am agor y drws a manteisiwn ninnau ar y cyfle fel y dywedodd Dewi Sant "Byddwch lawen a gwnewch y pethau bychain."

Roedd ein dathliad Gŵyl Ddewi ar nos Sadwrn, 25 Chwefror yng nghlwb Golff Woolton yn llwyddiant eithriadol. Y wraig wadd oedd Nia Cerys o Fangor, cyflwynwraig teledu a radio. Mae hi'n ferch i Dr. Norman a Beti Jones, Llandegfan, Môn, cyn aelodau o'n heglwys, a chroesawyd hwythau i'n plith.

Cyflwynodd Dr. D. Ben Rees hi fel merch dalentog, amryddawn, yn ddarlledydd newyddion ers pymtheg mlynedd ac yn fam i ddau o blant, Owain ac Elen.

Yn ifanc iawn roedd ysfa ganddi i fentro i gael profiadau newydd, a thynfa tuag at ddinas Lerpwl oherwydd cysylltiadau'r teulu, cafodd ei bedyddio yma ac mae hi'n cefnogi tîm pêl-droed Lerpwl er ei bod yn gwisgo ffrog las ar y noson. Cefnogydd mawr arall yw ei phriod, Dafydd Gwynn, yntau yn gyflwynydd newyddion S4C.

Bu'n teithio llawer i wahanol rannau o'r byd, ac yn synnu cyn lleied oedd wedi clywed am Gymru a'r iaith Gymraeg. Manteisiai hithau ar bob cyfle i'w dysgu, ac i sylweddoli bod Cymru amlwg wedi gwneud eu marc yn y byd mawr tu allan.

Cawsom beth o'i hanes yn yr Eidal, Awstria a Patagonia, ac yno yn y Wladfa y derbyniodd y croeso mwyaf a chlywed yr iaith Gymraeg yn y Gaiman a'r Dyffryn mor bell o'i chartref. Rhoddodd sylw i dri o Gymry alltud dros y canrifoedd, Griffith Roberts, Milan; Pritchard Jones yn Llundain a D. Ben Rees yn Lerpwl. Rydan ninnau yn Lerpwl yn ffodus o gael Dr. D. Ben Rees a'i Gymreictod. Daliodd yn ei ddyfalbarhad ac anogodd Nia ninnau i ddal ati i gadw'r traddodiad a'r iaith Gymraeg yn fyw. Mae geiriau Dewi Sant yn hynod o berthnasol heddiw, "Gwnewch y pethau bychain".

Noson fendigedig oedd hon, y bwyd yn ardderchog, y gwmniaeth yn felys a'r wraig wadd Nia Ceris yn ddiddorol dros ben. Cyflwynodd Roderick Owen y diolchiadau – gan ddiolch i Dr. Rees, Nia Ceris ac i'r ddwy drefnydd, Lilian Coulthard a Gwenfyl Bain am eu trefniadau trylwyr yn trefnu'r cinio ac addurno'r byrddau, a gwneud y cyfan yn brofiad a hir gofir.

Bu farw aelod hynaf yr eglwys yn 95 oed sef Mrs Glenys V. Roberts, 2 Centreville Road, a threfnwyd ei hangladd yn Springwood ar y dydd olaf o Chwefror.

Cydymdeimlwn â Mrs Menna Owen, Kingsdrive, Woolton ar golli ei chwaer Beryl yn Rhoslan, Eifionydd.

Anfonwn ein cofion at nifer fawr o aelodau sy'n methu cyd-addoli â ni ar y Sul oherwydd amryw amgylchiadau. Bendith arnoch.

# CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Dyma ddechrau ail hanner y tymor ar Ionawr 23 gyda sgwrs gan Tony Jones o Langefni am ei gefndir, ei fywyd prysur a'i ddiddordeb ym myd y ddrama, yn arbennig yn y Theatr Fach adnabyddus a phoblogaidd. Ganwyd Tony ym Mryngwran, addysgwyd ef yn ysgol y pentref ac yn ysgol Ramadeg Caergybi. Er iddo gymeryd gofal o'r fferm wedi marwolaeth ei dad, nid ffermio oedd ei ddewis ac wedi treulio amser yn y fyddin, gyda'r Gwarchodlu Cymreig daeth adref i brentisiaeth yn Llangefni. Tra yn y Gwarchodlu, bu'n gwarchod Palas Buckingham, a diddorol oedd clywed ei atgof am y Frenhines yn ymddangos yn y drws cefn a'i gyfarch, "Thank you guardsman and goodnight".

Ei waith dyddiol yw fel adeiladydd a phlastiwr, ond un o'i brif ddiddordebau yw bridio Merlod Cymreig a'u dangos mewn sioeau gyda gryn lwydddiant. Mae hefyd yn eu beirniadu mewn sioeau drwy'r wlad, yn cynnwys y Sioe Frenhinol.

Ond ei brif ddiddordeb ers dros hanner can mlynedd yw byd y ddrama. Bu'n aelod o amryw o gwmniau drama'r Ynys cyn ymuno â chwmni drama Llangefni yn perfformio yn neuadd y dref. Drwy ymroddiad Tony a'i gyd-weithwyr, codwyd £8,000 i brynu hen dŷ gyda stablau ac ysguborion a'i drawsnewid yn theatr gartrefol, llwyddiannus ac ymarferol sy'n parhau yn boblogaidd a phrysur.

Clywsom amryw o straeon gan Tony, am sêr byd y ddrama yng Nghymru sydd wedi cefnogi'r fenter hyderus hyd heddiw. Gobeithia'r cwmni lansio llyfr am hanes y Theatr, yn Eisteddfod Môn eleni. Llywydd y noson oedd Mr Arwel Evans, a rhaid ei longyfarch am y tro cyntaf iddo ymgymeryd â'r swydd mewn modd gartrefol a dymunol gyda'i wên groesawus.

Mynegodd Iola Edwards ein diolchiadau i Tony am noson hyfryd gyda sgwrs fywiog a hwylus gan un mor frwdfrydig am ei bwnc.

"Byw fel bydwraig' oedd teitl sgwrs Mrs Nanw Povey a ddaeth atom o Wrecsam ar Chwefror 6. Ganwyd Mrs Povey ym Machynlleth, magwyd hi yn Llanuwchllyn ac addysgwyd hi yn ysgol Syr O. M. Edwards ac ysgol Ramadeg y Merched, Bala. Cyfeiriodd at natur hollol Saesneg ysgolion eilradd Cymru yn y cyfnod a dwyn atgofion i lawer ohonom am ddysgu drwy gyfrwng iaith diethr, a chael gwers "Welsh" ryw deirgwaith yr wythnos.

Ffermwr oedd ei thad, a Nanw yn un o wyth o blant mewn cartref hapus sefydlog. I'w thad roedd addysg yn holl bwysig ac mae hi'n dal i deimlo yn ddyledus iawn iddo am ei gefnogaeth diysgog. Yn un ar bymtheg oedd aeth i ysbyty Gobowen i'w hyfforddi mewn 'orthopaedics' ac oddi yno i gwrs nyrsio cyffredinol yn y Royal London Hospital. Treuliodd amser yn gweithio yn Tower Hamlets fel "Nitty Nora", ac mewn ysbytai'r ddinas lle cyfarfu a nifer o enwogion. Yn eu mysg oedd oedd Sir Robert Winston; awdures 'Call the Midwife', y Dywysoges Anne ac, mewn trên, y Dalai Lama.

Cafodd ei hyfforddi fel bydwraig yn Wythenshaw a Wrecsam, a dyna oedd ei harbenigedd, gan gynnwys hyfforddi myfyrwyr tra'n Gydlynydd Addysg Bydwreigaeth Prifysgol Bangor. Wedi ymddeol mae hi'n weithgar gyda Merched y Wawr, yn flaenor yng nghapel y Groes, yn llywydd Cyfeillion ysbytai Maelor, Bala a Phenllyn, ac yn arlunydd talentog.

Clywsom am hanes bydwragedd o ddyddiau'r Beibl hyd heddiw, gyda sylwadau pigog ar gyfraith, moesoldeb, a rhagrith a rhagfarn tuag at ferched drwy'r oesoedd a hyd heddiw. Mae gan Mrs Povey amryw o drysorau diddorol, yn eu mysg, Beibl un o'r enw Simon Jones, milwr a chyfaill Hedd Wyn oedd wrth ei ochr pan laddwyd y bardd. Tybed oedd y Beibl hwn yn ei bac ar faes Fflandrys!

Gwnaed y diolchiadau gan un o'n dysgwyr, Anne Storey. Eirwen oedd llywydd y noson, Terry yn cyfeilio a Glenys ac Eunice ofalodd am y te. Rhaid llongyfarch Anne am ei Chymraeg cywir graenus – a'i dewrder wrth ddiolch am noson fywiog, oleuedig a gafaelgar.

"Mudwr o Maesincla" oedd teitl sgwrs Dafydd Sheldon Roberts ("Cofi" yn boblogaidd) pan ddaeth i'n difyrru ar Chwefror 20. Fel un ohonom ni yn y Gymdeithas, rydym yn gyfarwydd a dawn Dafydd fel siaradwr a darlithydd rhwydd, doniol hollol hyderus a chartrefol. Wedi clywed eglurhad o'r pennawd - sef lleoliad ei gartref yn yr hen dref sydd mor annwyl ganddo, aeth ymlaen i sôn am gymeriadau a gafodd ddylanwad arno o'i ieuenctid hyd ei amser fel oedolyn ym myd addysg. Yn arbennig pwysleisiodd mae'r hyn a effeithiodd fwyaf amo, oedd agwedd y cymeriadau at waith boed yn yrrwr bws Crosville, neu yn aelod Seneddol. Gwelodd ynddynt hwy y rhiweddau sy'n creu personolaith hyderus, ffyddlon, gonest a chydwybodol sy'n ymateb i ofynion a siomedigaethau a ddaw i rhan pawb ym myd gwaith.

Yn eu mysg oedd cwmni dynion yng ngweithdy crydd ei daid yn trin materion gwladol a chartrefol, athrawon a darlithwyr gyda chyngor doeth a deallus, ei fam a'i nain a chymdeithas glos tref Caernarfon. Y ddau ddyn cyhoeddus a edmygodd yn arw oedd Goronwy Roberts, aelod seneddol Arfon o 1945 hyd 1974, a Bob Paisley, y naill am ei barodwydd i rhoi cyngor a chymorth i'w fam mewn argyfwng, a'r llall am ei ymroddiad llwyr i'w swydd a'i alwedigaeth.

Cawsom, noson hynod o bleserus yn gwrando ar ein cyfaill - ac oedd rhaid diweddu gydag esiampl o waith "Y Co Bach". Mrs Menna Kearney oedd llywydd y noson, Mike Storey wnaeth y diolchiadau, a Terry oedd wrth y piano.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2017. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mai 2017 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Ebrill, 2017, – neu ar y we i benatgarthdrive@ talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Mehefin 2017** erbyn bore Mawrth, 2 Mai, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc.

**iii) Rhifyn Gorffennaf 2017 –** erbyn bore Iau, 1 Mehefin i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 2.00 o'r gloch y pnawn hwnnw.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# TUDALEN Y DYSGWYR

*gan Dr. Pat a Lowri Williams*

## Y PASG

Gŵyl symudol yw'r Pasg. Yn ôl y calendr Gregoraidd, a ddaeth i fod yn 1582, mae Dydd Sul y Pasg yn digwydd ar y Sul cyntaf ar ôl y lleuad llawn cyntaf ar ôl y cyhydedd gwanwynol, hynny yw rywdro rhwng y 21ain o fis Mawrth a'r 25ain o fis Ebrill. Ond mae Eglwys Uniongred y Dwyrain yn dal i ddilyn yr hen galendr Iwliaidd. Mae'r calendr hwn ryw 10 diwrnod yn ddiweddarach na'r calendr Gregoraidd.

Mae'r gair 'Pasg' yn dod o'r Lladin 'pascha'. Dyna oedd gair y Rhufeiniaid am 'pesach', yr ŵyl Iddewig sy'n dathlu Moses yn arwain yr Israeliaid o'r Aifft i wlad Canaan. Mae'r Ffrancwyr, yr Eidalwyr a'r Sbaenwyr yn ogystal â siaradwyr o Sgandinafia hefyd yn defnyddio geiriau tebyg i'r gair Cymraeg: Ffrangeg – Pâques, Eidaleg – Pasqua, Sbaeneg – Pascua, Swedeg – Pask.

Mae'r gair Saesneg 'Easter', fel y gair Almaeneg 'Ostern' ar y llaw arall yn dod o 'Eostre' enw ar dduwies y wawr neu'r gwanwyn, neu dduwies ffrwythlondeb, yr oedd ei gŵyl yn cael ei dathlu ar y cyhydedd gwanwynol. Daeth yr ŵyl baganaidd hon wedyn yn ŵyl Gristnogol.

*Let us take a look at the names of countries, their people and their languages:*

| Gwlad | Pobl | Iaith |
|---|---|---|
| Cymru | Cymro (m)/Cymraes (f) /Cymry (pl) | Cymraeg |
| Lloegr | Sais (m)/Saesnes (f)/Saeson (pl) | Saesneg |
| Ffrainc | Ffrancwr (m)/Ffrances (f)/ Ffrancwyr (pl) | Ffrangeg |
| Sbaen | Sbaenwr (m)/Sbaenes (f)/ Sbaenwyr (pl) | Sbaeneg |
| Yr Almaen | Almaenwr (m)/Almaenes (f)/ Almaenwyr (pl) | Almaeneg |
| Yr Eidal | Eidalwr (m)/Eidales (f)/ Eidalwyr (pl) | Eidaleg |
| Sweden | Swediad (m and f)/Swediaid (pl) | Swedeg |

### Geirfa

| | |
|---|---|
| Almaeneg | German |
| cyhydedd gwanwynol | spring equinox |
| digwydd | to happen |
| ffrwythlondeb (m) | fertility |
| Iddewig | Jewish |
| llawn | full |
| lleuad (m) | moon |
| Rhufeiniaid | Romans |
| symudol | moveable |
| uniongred | orthodox |
| wawr < gwawr (f) | dawn |

*Fill in the blanks in the following passage. You will find the words in the vocabulary below:*

### Symbolau'r Pasg

Mae wyau, a chwningod yn symbolau'r Pasg. Am fod ieir yn dodwy ____ [1] a chwningod yn _________ [2] llawer o rai bach, ystyrir nhw fel symbolau o _____ [3] newydd. Mae rhai yn yr _____ [4] Uniongred hyd yn oed heddiw yn lliwio wyau yn goch adeg y Pasg fel symbol o waed Crist ac eraill yn ______[5]'r wyau yn wyrdd fel symbol o _________________6.
Symbol arall o'r Pasg yw teisen y Groglith. Yn ystod teyrnasiad Elisabeth I doedd _________ [7] yn cael bwyta teisen y Groglith ond mewn angladd, ar Ddydd Gwener y Groglith neu y Nadolig.

### Geirfa

| | |
|---|---|
| angladd (m/f) | funeral |
| bywyd (m) | life |
| cwningen, cwningod (f) | rabbit, -s |
| cynhyrchu | to produce |
| dodwy | to lay |
| eglwys (f) | church |
| ffrwythlondeb (m) | fertility |
| gwaed (m) | blood |
| Gwener y Groglith | Good Friday |
| iar, ieir (f) | egg, -s |
| lliwio | colour |
| neb | no-one |
| teisen y Groglith | hot cross bun |
| wy, -au | egg, -s |
| ystyrir (*from* ystyru) | are regarded |

*Answers*
1 *wyau;* 2 *cynhyrchu;* 3 *fywyd* (mutation after "o"); 4 *Eglwys;* 5 *lliwio;* 6 *ffrwythlondeb*; 7 *neb*.

### Gramadeg

*To say 'who'/'which'/'that' in Welsh, you use the relative pronoun 'a' followed by the soft mutation,* e.g.

> y calendr Gregoraidd, a ddaeth i fod yn 1582 - *the Gregorian calendar* ***which*** *came into existence in 1582*

*To say 'whose', you use the relative pronoun* 'y' *or* 'yr' *and then repeat his/her.*

> gwanwynol. –
> *The fertility goddess,* ***whose*** *feast was celebrated at the spring equinox.*
> *Literally,*
> *The fertility goddess,* ***that*** *it was* ***her*** *feast that was celebrated at the spring equinox*

*Translate the following sentences into Welsh:*

1. The French woman who came to Liverpool.
2. The man whose wife speaks Italian.
3. The German who supported Everton.
4. The boy whose birthday was on Good Friday.
5. Eostre whose festival was on the spring equinox.
6. The egg that broke.

*Answers:*
1. Y Ffrances a ddaeth i Lerpwl.
2. Y dyn y mae ei wraig yn siarad Eidaleg.
3. Yr Almaenwr a oedd yn cefnogi Everton.
4. Y bachgen yr oedd ei ben blwydd ar Ddydd Gwener y Groglith.
5. Eostre yr oedd ei gŵyl ar y cyhydedd gwanwynol.
6. Yr ŵy a dorrodd.

# *Adolygiad Cyfrol Werthfawr sef*

Ann Carlton –

**PENNY LANE AND ALL THAT: Memories of Liverpool**


*Y Lolfa, 2017, tudalennau 1-192, clawr meddal. Pris £9.99*

Darllenais y gyfrol hunangofiannol hon ar ddau eisteddiad gan fod y cynnwys mor ddiddorol a'r arddull yn llifo. Hunangofiant merch i un o wŷr amlwg Lerpwl, Syr Stanley Holmes ydyw. Daeth ef yn Brif Weithredwr Lerpwl ('Town Clerk' oedd y term) ac am gyfnod byr yn gweinyddu Glannau Mersi. Y mae stori ei rhieni yn stori anhygoel. Ganwyd ei thad yn 1912 yn Anfield, un o ganolfannau y Cymry, a'i mam Ledi Doris Holmes yn 1914 i deulu â chefndir Cymraeg. Cyfarfu y ddau yn Eglwys Sant Christopher yn Lorenzo Drive, Norris Green a gadawodd ei thad yr ysgol yn bymtheg oed oherwydd diffyg adnoddau ariannol i aros ymlaen, ag ymuno ar staff Swyddfa Clerc y Ddinas. Dros y blynyddoedd enillodd ymddiriedaeth a symud o ris i ris gan ei apwyntio yn y diwedd yn brif weithredwr Lerpwl.

A'r hyn a wna ei ferch ydyw edrych ar Lerpwl ei phlentyndod a'i llecyndod trwy weithgarwch ei rhieni prysur, oedd wedi cyrraedd y brig ac ynghanol pob symudiad yn y ddinas. Arwydd fod ei byd yn newid oedd symud o Muirhead Avenue i 30 Heathfield Road, hi a'i rhieni a'i nain, a chawsom benodau difyr yn adrodd profiadau tyfu i fyny a'i diddordebau amrywiol. Un o'i ffrindiau pennaf oedd Ann Morris (Griffiths gynt) ac fe sonnir am ei thad ond heb ei enwi sef Ifor Griffiths, Charles Berrington Road ac Ysgrifennydd gwych Capel Heathfield Road pan dderbyniais yr alwad. Sonia'r awdur heb lawer o ddealltwriaeth am ei safiad fel Presbyteriad o'i wrthwynebiad yn erbyn pwrcasu na darllen papur dydd Sul a'i safiad yn erbyn y ddiod gadarn. Yr oedd hyn yn gyffredin yn hanes cymaint ohonom, felly yr oedd hi yn fy nghartref yng Ngheredigion.

Y mae'r manylion am y siopau a'r busnesau oamgylch Penny Lane yn hynod o bwysig. Fel hanesydd lleol yr wyf yn ei groesawu yn fawr, a'r amodau byw oedd yn bodoli yn y pedwar a'r pumdegau oamgylch Penny Lane Yr oedd y moduron yn brin, derbyniai Ann a'i ffrindiau ryddid i chwarae ar balmant Heathfield Road a cherdded bob dydd i Ysgol Mosspits, lle yr addysgid hi ac ar y Sul, dair gwaith i Eglwysi Holy Trinity, Church Road, Wavertree. Yr oedd wrth ei bodd yn cymeryd rhan yng ngweithgareddau yr eglwys honno lle y bu ei thad yn warden a lle y cynhaliwyd ei arwyl. Sonia fy mod i yno er ni roddodd enw ond 'Welsh Presbyterian minister'. Fi oedd yr unig un yn y ddinas yn 1987!

O Mosspits aeth i Ysgol Ramadeg y Merched Aigburth Vale (yr holl adeiladau wedi diflannu) a gwna gyfeiriadau at yr athrawon a agorodd ei llygaid i drysorau llên, a sicrhau ei bod hi yn cael y cyfle, na chafodd ei rhieni, o astudio mewn sefydliad byd enwog sef *London School of Economics*. Ni sonia am y Gymraes, Miss Alwena Davies a roddodd flynyddoedd lawer i'r ysgol honno, ond gwyddor tŷ, os y cofiaf oedd ei phwnc hi.




Y mae'r hunangofiant hwn yn berl a hynny am bedair pennod hynod o afaelgar sydd yn agoriad llygad. Yn gyntaf y bennod agoriadol, sef molawd i Lerpwl o dan y teitl, *Liverpool - a very special city.* Mae arni hiraeth am Lerpwl er ei bod wedi gadael ers 50 mlynedd ac yn byw gyda'i phriod Denzil Davies, cyn aelod Seneddol Llanelli, ym mhentref glan y môr Pembre. Yr ail bennod bwysig yw'r seithfed *Dear Bessie Braddock* sy'n portreadu y gwleidydd fel un oedd yn annwyl i blentyn saith mlwydd oed. Cameo perffaith o '*Battling Bessie*,' bellach yn *'Dear Bessie'!* Y drydydd bennod, *Murdering Chess player*, sef hanes William Wallace a Menlove Gardens East nad yw'n bodoli. Yn bedwerydd ei phennod arni hi fel un o Gymry Lerpwl ond di-Gymraeg *Being Welsh*. Cawn y frawddeg unigryw hon:

*"As a a child I wanted to attend Heathfield Road Welsh Chapel, but my father would not let me. He opposed the idea, not because I did not speak Welsh – I could have learnt by going to the chapel – but because speaking Welsh was seen by his generation as a liability"*. Mor wir oedd hynny. Cymeradwyaf cyfrol hyfryd a chyhoeddwyd gyda medr arferol Y Lolfa sydd yn dathlu 50 mlynedd o gyfraniad pwysig fel cyhoeddwyr eleni. Melys moes mwy Ann Carlton.

***D. Ben Rees***

# CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION

Ein gŵr gwadd fis Chwefror oedd y Parch Ddr D. Ben Rees Lerpwl a theitl ei ddarlith oedd 'Cyfraniad Syr John Morris Jones.' Ganed Syr John ar y 17eg o Hydref 1864 yn Nhrefor, Llandrygarn, Ynys Môn. Symudodd y teulu i Llanfair P.G. lle cafodd ei addysg elfennol ac yna i Ysgol Friars Bangor.Yn 1879 cafodd prifathro Friars, Daniel Lewis Lloyd ei apwyntio yn bennaeth Christ College Brycheiniog, ac aeth â'i ddisgybl John gydag ef! Yn 1881 aeth Syr John i Goleg yr Iesu, Rhydychen lle graddiodd gydag anrhydedd mewn Mathemateg. Yn 1895, daeth yn Athro Cymraeg ym mhrifysgol gogledd Cymru Bangor. Roedd yr hanes am weddill ei fywyd wedi hynny yn ddifyr iawn a mawr oedd ei gyfraniad i'r iaith Gymraeg. Roedd Dr Ben yn siarad amdano fel am gyfaill ac roedd pawb wedi mwynhau dod i adnabod Cymro arbennig, sef Syr John Morris Jones. Ehedodd yr awr yn fuan iawn yng nghwmni Dr Rees a diolchwn yn fawr iddo am ddod atom. Dyma ddiweddglo teilwng i'r Gymdeithas eto eleni. Cafodd pob darlith gefnogaeth a da oedd gweld yr ystafell yn Noddfa Oaker Avenue yn gyfforddus lawn.

***CLEIFION -*** Anfonwn ein cofion at Mrs Lois Murphy. Bu Lois yn yr Ysbyty ond mae gartref yn awr ac yn gwella. Gwelwn ei cholli'n fawr ar brynhawn Sul – mae ei ffyddlondeb a'i chyfraniad i'r achos Cymraeg dros y blynyddoedd wedi bod yn ddi-fesur. Edrychwn ymlaen at ei chael yn ein mysg yn y dyfodol agos.

Rydym hefyd yn meddwl am Miss Gwen Jones sydd wedi bod yn ddi-hwyl ond yn ôl yn ei chartref yn Cheadle Hulme erbyn hyn. Mae Gwen wedi bod yn aelod yn y capeli Cymraeg ers blynyddoedd lawer. Dymunwn yn dda iddi.

***COLLI BLAENOR FFYDDLON –*** Gyda syndod a thristwch y derbyniwyd y newydd am farwolaeth Clifford Evans. Rhoddodd Cliff, a hannai o Gaernarfon, flynyddoedd o wasanaeth di-flino i'r Achos Cymraeg yma ym Manceinion. Bu'n flaenor yng nghapel Cheetham Hill am flynyddoedd cyn yr uniad â Noddfa Oaker Avenue. Byddai'n trafaelio o Bury ar brynhawn Sul i ddod i'r gwasanaeth – siwrnai o hanner can milltir yn ôl ac ymlaen. Dyna beth yw ymrwymiad. Gwelwn ei golli'n fawr – gŵr tawel, diymhongar ond bob amser yn barod i roi help llaw. Estynnwn ein cydymdeimlad i Arwel a Nia ei blant ac i'r teulu cyfan.

## CRONFA ARBENNIG GŴYL HEDD WYN 2017

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi

### Cronfa Gŵyl i gofio

**Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a champ y bardd filwr a gollodd ei fywyd yn Pilkem Ridge (31-7-1917) Hedd Wyn o Drawsfynydd a enillodd y Gadair, ac yr ydym am fewnforio carreg arbennig o'r India bell i'w goffau.**

**Cynhelir yr Ŵyl ar Sadwrn, 9 Medi a Sul, 10 Medi 2017 ym Mhenbedw. Chwilier am y Parc**

**Rhestr 4 (hyd 28 Chwefror 2017)**

–Ymateb gwych oddi wrth

1) Mrs Alice Jones, Thingwall, Cilgwri .............................. £25
2) Mrs Val Hillier, Woolton, Lerpwl.................................... £20
3) Cymdeithas Cymry Lerpwl
(trwy law y trysorydd Alun Davies) ................................ £40
4) Dr. Arthur Thomas a Mrs Ann Thomas, Allerton
(Ysgrifennydd y Gymdeithas) ...................................... £250
5) Mrs Hilda Thomas a Mr. Brian Thomas, Mossley Hill
(diolchir am gyfraniad Brian i'r Pwyllgor Gwaith)........ £100
6) Mr Ken Williams, Gateacre, Lerpwl ............................... £50
7) Yr Athro Huw Rees, Mossley Hill a Boncath ................. £50
8) Mrs Iola Edwards (Ysgrifennydd Cymdeithas
Gymraeg Penbedw) ....................................................... £40
9) Mrs Sian Arwel Davies a Mr. Eurfryn G. Davies,
Llandegfan, Môn ............................................................ £30
10) Côr Rygbi Gogledd Cymru (trwy law Mr. Alwyn
Bevan, Llanllechid) .................................................... £100
11) Elw Cyngerdd Hedd Wyn ar Nos Sadwrn, 28 Ionawr £100
12) Mrs Glenys Jones, Prenton, Penbedw ........................... £20
13) Mrs Pam McNamara (o eglwys Bethania),
Litherland, Lerpwl ....................................................... £25

**Cyfanswm ......................................... £850**

**Rhestr Haelioni**

**Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016) .................................. £715.00**
**Rhestr 2 (hyd 31 Rhagfyr 2016) ................................ £540.00**
**Rhestr 3 (hyd 31 Ionawr 2017) .................................. £443.00**
**Rhestr 4 (hyd 28 Chwfror 2017)................................ £850.00**
**Cyfanswm ........................................... £2,448.00**

Yr ydym wedi cael mis arbennig o dda a bron hanner ffordd i'r nod. Mae arnom angen eto o leiaf £2,552 i dalu am

1) Glanhau y Gofeb ym Mharc Penbedw (ni chafodd ei glanhau ers ei gosod yno yn 1922) yn dod yn £2,500;

2) Gosod cofeb ar waelod y Garreg i goffa Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) fydd yn costio £2,500. Y nôd = £5,000. A chofier fod yna gostau lawer eraill i greu dwy Goron, talu'r artistiaid, paratoi Llawrlyfr yr Ŵyl.

**Ceir y bumed rhestr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau i'r Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl, Liverpool L18 6HW pan mae'n gyfleus. Y sieciau i'w llenwi i 'Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi' neu 'Merseyside Welsh Heritage Society'.**

**Yr ydym fel Cymdeithas yn ffyddiog y cawn yr arian sydd ei angen arnom erbyn Gwener, 1 Medi 2017. Diolch am eich cydweithrediad, caredigrwydd a'ch cefnogaeth calonogol.**

*Myfyrdod*

# Bydded Goleuni

Yn anamal iawn cawn bygythiad tywyllwch mor glir a geiriau yr Arglwydd Grey o Falloden pan ar drothwy Rhyfel Byd Cyntaf fe ddywedodd, "Mae'r lampau yn diffodd ar draws Ewrop ac ni welwn hwy yn olau eto yn ystod ein hoes". Bu farw yn 1933 pan ddaeth Adolph Hitler i rym ac fe wyddom fe ddaeth tywyllwch eto ac fel dywed cefn gwlad "roedd mor dywyll a bol buwch".

Amser fel yna, yn wir, oedd adeg Wythnos y Dioddefaint o Sul y Blodau a siwrnai Iesu Grist i Galfaria a'i groesholiad. Mae'r tri Efengylwr Mathew, Marc a Luc yn dweud wrthym i fywyd yr Iesu ddirwyn i ben – "Roedd tywyllwch dros y tir o'r chweched hyd y nawfed awr". Yn ôl rhywun "it was gross darkness" yn symbolaidd ac yn llethol. Cofiaf Parch G. H. Jones, ers talwm, ar ei bregeth yn dweud fod y Duw mawr wedi tynnu'r bleind i lawr!!

Mae'r Beibl yn sôn am ddrygioni, pechod a dioddefaint yn dywyllwch ac heb amheuaeth roedd y groes yn bob un o rhain – lladd un oedd yn ddiniwed, yn ddi-fai ac yn greulon ddychrynllyd ond serch hyn mae'r Groes yn ganolbwynt paradocs oherwydd yma mae calon y Ffydd yn curo. Awn yn ôl i'r Creu yn Llyfr Genesis "a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder ac Ysbryd Duw yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd a Duw a ddywedodd Bydded Goleuni ac felly y bu". Mae yna sôn yn Llyfr Ecsodus am Moses yn dod yn agos i'r tywyllwch "lle roedd Duw". Dwn i ddim os ydw i'n iawn ond yn flynyddol mae'n edrych fod yna frwydr a ddaw i gof yr Eglwys yn ystod tymor y Grawys a'r Pasg, y frwydr rhwng y goleuni a'r tywyllwch.

Roedd Mam yn arfer dweud wrthyf nad oedd Duw yn cysgu – "wele ni huna ac ni chwsg Ceidwad Israel" ac mi gredaf o waelod calon wrth weld a chlywed am yr holl dioddefaint sydd yn y byd gyda rhyfeloedd, ffoaduriaid a thrychinebau ac wedyn yn nhywyllwch dudew y groes mai calon Duw yw y cyntaf i dorri a bod Duw yng nghanol pob dioddefaint yn rhannu ein poen ac yn yr adeg dywyllaf bod yna lygedyn o olau.

Cyflwynodd y Crist Ei hun fel goleuni y byd, golau yn ôl Sant Ioan sydd yn goleuo'r tywyllwch ac ni all y tywyllwch ei ddiffodd. Rhaid i ninnau heddiw fel ein tadau oleuo i ogoneddu Duw. Gadewch i eiriau plentyn grynhoi galwad Iesu Grist i ni. Roedd yr ifanc Robert Louis Stevenson yn disgwyl ei swper ac yn edrych allan ar stryd yng Nghaeredin pan sylwodd ar oleuwr lampau yn yr hen amser yn goleuo lampau'r stryd. Galwyd ef am ei swper, ond mynnai ddweud "Look, look there's a man out there punching holes in the darkness". Felly mae'n rhaid i ninnau wneud ynte?

***ELWYN***

*Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7UH 07729 960484*

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi

**GŴYL CADAIR DDU PENBEDW**
**a’r BARDD HEDD WYN (1917-2017)**



### GŴYL HEDD WYN Medi 9 - 10, 2017

Yr ydym mewn partneriaeth gyda Cyfeillion Parc Penbedw ae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn paratoi rhaglen amrywiol a fydd o fudd mawr i Gymru a lle y ceir cofeb i’r un a syrthiodd ym mrwydr Cefn Pilkem, 31 Gorffenaf 1917. Bwriadwn osod ein stondin ger Canolfan Parc Birkenhead, ac yn yr Academi y bydd gweithgareddau y ddau ddiwrnod arbennig. Agorir y dathlu yn Nhrawsfynydd ar 6 Medi a byddwn yn y cyfamser yn:-

**(a)** mynd ati trwy arbenigwyr i lanhau y Gofeb sydd yn y Parc a gosod geiriau i gofio camp ac aberth Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn; 1887-1917), awdur yr awdl. Ysgrifenwyd hanner yr awdl yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, a’r hanner arall yn y gwersyll yn Litherland a’i phostio o faes y gad yn Ffrainc. Cyst y gwaith ar y Gofeb o leiaf £5,500. Ail ddatgorchudder y Gofeb ar bnawn Sadwrn, 9 Medi, am 3 o’r gloch;

**(b)** i baratoi rhaglen uchelgeisiol 9-10 Medi yn cynnwys sgyrsiau, darlithiau, ar Hedd Wyn, Lloyd George, cadeirio’r Bardd, y Gadair Ddu, teulu Eugeen Vanfleteran (crëwr y Gadair), Talwrn y Beirdd, Telynorion, Corau, Gwasanaeth o Ddiolch a Chymanfa Ganu. Cofio hefyd am Gymry o lannau Mersi a gollodd eu bywydau.

Byddwn felly yn ddiolchgar am dderbyn y cyfraniadau tuag at y costau hyn a’r rhaglen lawn. Anfonwch eich cyfraniad ariannol os dymunnwch i **Dr D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl/Liverpool, L 18 6HW.** Bydd pob cyfraniad yn cael ei nodi yn ein papur bro a hefyd yn Rhaglen yr Wyl, os na noder yn wahanol. Dylai’r sieciau gael ei llenwi i Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.

Gyda diolch,

*Dr D. Ben Rees (Cadeirydd);*
*Ms Rachel Gooding (Trysorydd)*
*Dr Arthur Thomas (Ysgrifennydd)*

## *Cystadleuaeth*

Dydd Cau: 1 Ebrill
Gwobrau am y goreuon.

**RHAI POBL BWYSIG**

Pwy ydynt os gwelwch yn dda?

1 ‘Y GORE OLL, DEG”
waith drosto, ac yn Gymro
i’r carn (4-5)

2. “LOL, DROS HWN A’I”
sôn am y bunt yn ein poced
(6-6)

3. “ER GAF I ANGEL” yma,
a yw, a pheint yn ei law?
(5-6)

4. ‘BRODOR, GWN O’N”
hanes amdano,
fel Prif Weinidog, a thamaid
o liw iddo! (6,5)

5. “UN GOES LAN-TRIC O”
wlad yr ysgallt a’r brithwe,
a **HI** yn rheoli! (6-8)

***Anfoner i’r Golygydd,***
***32 Garth Drive, Lerpwl,***
***L18 6HW***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o’r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

# NOSON GWYLWYR S4C YN LERPWL

Nos Fercher 15 Chwefror daeth hanner cant o bobl ynghyd yn Oriel ac Amgueddfa Victoria, Ashton Street i Noson Gwylwyr S4C.

Roedd hwn yn gyfle i bawb leisio'u barn ar yr hyn sydd ar y sianel a'r hyn yr hoffant nhw ei weld ar y sianel.

Roedd Cyfarwyddwr Cynnwys S4C, Amanda Rees yn awyddus iawn i glywed barn pawb ac, ar ôl i bob bwrdd gael cyfle i drafod, roedd un o swyddogion S4C yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod cyfan.

Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl roedd testun trafod bob bwrdd yn wahanol – Dechrau Canu Dechrau Canmol ar un, comedi a rhaglenni pobl ifanc ar un arall.

Da oedd gweld llond bwrdd o ddysgwyr yn ymuno yn y drafodaeth gyda chymorth cyfieithu ar y pryd. Roedd hi'n braf hefyd gallu croesawu tua dwsin o fyfyrwyr sydd wedi gwneud Lerpwl yn gartref dros dro iddynt.

Cafwyd gair gan Huw Jones Cadeirydd Awdurdod S4C a chyflwyniad byr gan Brif Weithredwr y sianel Ian Jones.

Ar ddiwedd y noson cynigiwyd gair o ddiolch gan Dr D. Ben Rees ar ran Cymry Lerpwl gan estyn croeso i S4C ymweld â'r ddinas eto'n fuan.









